PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MAWRTH, 19 CHWEFROR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Henshaw, Gordon, Gavin Hill-John, Parkhill, Robson a/ac Sattar |

57 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Simmons a Stubbs.

58 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

59 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

60 : ADRODDIAD YMCHWILIAD 'DIGWYDDIADAU YNG NGHAERDYDD'

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau fod yr eitem hon yn eu galluogi i ystyried yr adroddiad ymchwiliad 'Digwyddiadau yng Nghaerdydd' drafft. Roedd y grŵp gorchwyl yn cynnwys y Cynghorydd Gordon, y Cynghorydd Henshaw a'r Cynghorydd Parkhill.

Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i roi sylwadau:

Roedd yr Aelodau'n credu ei fod yn ymchwiliad diddorol ac amserol iawn, gan nodi'r Ardoll Treth Dwristiaeth yng Nghaeredin a phwysleisiodd eu bod yn ystyried na fyddai hyn yn briodol ar hyn o bryd i Gaerdydd, a nodwyd yn glir yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Argymhelliad 8 gan ystyried y byddai'r gost o gofrestru gyda'r Gymdeithas Cynadleddau a Chonfensiynau Rhyngwladol ar gyfer confensiynau a digwyddiadau cysylltiedig yn werth chweil pe bai'n darparu'r cyfle i greu cysylltiadau â dinasoedd eraill.

Bu'r Aelodau'n trafod y Triathlon ac roeddent o'r farn y byddai £8000 ar gyfer yr hawliau teledu i'r digwyddiad yn fuddsoddiad doeth i gael cynulleidfa deledu ryngwladol eang i Gaerdydd.

Llongyfarchodd yr Aelodau waith y Grŵp Gorchwyl ar yr adroddiad ac roeddent yn croesawu'r awgrym y dylid cynnal digwyddiad i wrthbwyso'r digwyddiadau effaith uchel/cyfnod byr.

Croesawodd yr Aelodau'r buddsoddiad mewn datrysiadau seilwaith.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod y canfyddiadau allweddol o ran capasiti gwelyau mewn gwestai a gwestai cost isel yn arbennig o ddiddorol.

PENDERFYNWYD: i ardystio’r adroddiad i’w gyflwyno i’r Cabinet.

61 : CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT 2019/20 A CHYNIGION CYLLIDEBOL DRAFFT 2019/20

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried yr eitemau hynny yn y Cynllun Corfforaethol drafft a'r Cynigion Cyllidebol drafft sy'n dod o fewn cyfrifoldeb y Pwyllgor. Byddai'r Cabinet yn ystyried y rhain ar ddydd Iau 21ain Chwefror, cyn y Cyngor ar 28ain Chwefror.

Cafodd yr adroddiad ar y clawr ei strwythuro gan bortffolio’r Aelod Cabinet a byddai'r Aelodau'n cael eu cyfeirio at y paragraffau perthnasol yn yr adroddiad ar y clawr drwy gydol y trafodaethau. Byddai Aelodau yn gyntaf yn cael gwybodaeth am y Trosolwg Corfforaethol o gynigion y gyllideb ddrafft. Byddai cynigion y gyllideb a rhannau perthnasol o'r Cynllun Corfforaethol wedyn yn cael eu hystyried gan bortffolio’r Aelod Cabinet.

Trosolwg Corfforaethol

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ac Ian Allwood - Pennaeth Cyllid.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle dywedodd fod bwlch o £32.4 miliwn yn y gyllideb, a fyddai'n cael ei gau drwy godi'r dreth gyngor gan 4.9% a gyda £19 miliwn o arbedion cyfarwyddiaeth, a'r rhan fwyaf o'r rheini'n gynigion a aeth i ymgynghori yn yr Hydref.  Roedd yn hapus i ddweud bod y Model Cadernid Ariannol yn cael ei roi ar waith bron yn llawn ar wahân i £200 mil a bod y gyllideb wedi'i chynnig gan ystyried yr Uchelgais Prifddinas, deddfwriaeth berthnasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.  Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y Cyngor dros y degawd diwethaf wedi gorfod dod o hyd i werth £200 miliwn o arbedion ac y byddai angen dod o hyd i werth £105 miliwn arall dros y 4 blynedd nesaf.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau ar gynnig cyllideb y Cabinet gan Christine Salter, ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

Gofynnodd Aelodau o ran y cynnydd o 4.9% yn y dreth gyngor, pe bai angen ailedrych ar hyn wrth symud ymlaen.  Cynghorodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor yn ailedrych ar hyn ddwywaith y flwyddyn, unwaith pan aiff y Strategaeth Gyllideb i'r Cyngor ym mis Gorffennaf ac unwaith eto pan fydd y Cynnig Cyllideb yn mynd i'r Cyngor ym mis Chwefror, mae hefyd wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei fod yn ffigwr enghreifftiol a'i bod yn anodd dweud beth fyddai'r ffigwr gwirioneddol dros y blynyddoedd nesaf, mae'n dybiaeth bod gan y Cyngor gyfle i drafod hyn nifer o weithiau drwy gydol y flwyddyn.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y cynnydd rhent i denantiaid y cyngor a gofynnwyd sut y mae hyn yn gweithio mewn perthynas â thalu allan budd-dal Tai.  Eglurodd yr Aelod Cabinet mai'r Llywodraeth Ganolog sy'n talu'r budd-daliadau, a'r elfen sy'n ymwneud â'r Cyngor yw Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a ystyrir hyn a’i gyllidebu ar ei gyfer.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r CDLl, sydd tu ôl i'w darged eleni, yn cael effaith ar y gyllideb.  Eglurodd swyddogion fod ymarfer yn cael ei gynnal bob blwyddyn ac mae sylfaen y Dreth Gyngor yn edrych hyd at fis Mawrth 2020, ond ar hyn o bryd nid oes llawer o gartrefi CDLl wedi'u cynnwys yn y gyllideb hon felly ychydig iawn o effaith a

geir. Mae Atodiad 2 i'r adroddiad yn edrych ar sut y bydd y CDLl yn cael ei ystyried wrth symud ymlaen, gan gynnwys gwasanaethau ychwanegol sydd eu hangen i wasanaethu'r cartrefi newydd a'r gwariant o'r dreth gyngor.

Nododd yr Aelodau y 1000 o gartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu a bod rhan o'r cyllid ar gyfer y gyfran nesaf o gartrefi newydd a gofynnwyd beth oedd y gost fesul uned ar gyfer pob cartref. Cynghorodd swyddogion fod y Cynllun Corfforaethol yn nodi 1000 o gartrefi newydd erbyn 2020 a 1000 arall o gartrefi newydd dros y 5 mlynedd nesaf, y byddai gan yr adran Dai raddfa daliadau ar gyfer unedau.

Nododd yr Aelodau fod gwerth £3.5 miliwn o arbedion yn y cam cynllunio cyffredinol a oedd yn uwch na'r llynedd a gofynnwyd pa mor hyderus yw swyddogion y gall y rhain cael eu gwireddu, yn enwedig gan ein bod ym Mis 9 ar hyn o bryd, ac nid oedd pob un o'r arbedion y llynedd wedi'u gwireddu eto. Eglurodd swyddogion eu bod yn gynyddol hyderus, eleni mae arbedion mawr y gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cefnogi gan gynlluniau manwl ac nid yw hynny wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol, sy'n rhoi hyder. Byddai gwaith yn parhau gyda Chyfarwyddwyr i gryfhau cynlluniau a byddai'r rhain yn cael eu monitro a'u hadolygu wrth symud ymlaen.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y gostyngiad mewn grantiau i ddigwyddiadau mawr, gan ofyn a oedd hyn yn gronnol a dywedodd swyddogion ei fod.

Holodd yr Aelodau am yr ymgynghoriad a pha mor hyderus oedd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ei fod yn sampl gynrychioliadol, o gofio'r gyfradd isel iawn o ymatebion gan bobl ifanc a gofynnodd sut roeddent wedi mynd i'r afael â'r gyfradd ymateb isel yn Arc Ddeheuol y Ddinas. Cytunodd yr Aelod Cabinet fod ymateb yr ifanc yn siomedig ac nid yr hyn yr oeddent wedi gobeithio amdano, y byddent yn ystyried sut y gellid gwneud hyn yn wahanol ac yn well a rhannu hyn â'r pwyllgor craffu. Gwnaed ymdrechion cyffredinol i wella cyfraddau ymateb, megis targedu ardaloedd ymateb isel gydag ymgynghoriad o ddrws i ddrws; mae hyn ynghyd â Holi Caerdydd yn rhoi rhywfaint o hyder eu bod yn cael synnwyr da o farn y ddinas; mae'r ymateb, er ei fod yn eithaf isel, yn dda o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill, ond mae'r ymatebion yn dal i symud tuag at ogledd y ddinas a'r trigolion mwy cefnog.

Cyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd
Croesawodd y Cadeirydd yr arweinydd, y Cynghorydd Huw Thomas, Ken Poole – Pennaeth Datblygu Economaidd a Jon Day – Rheolwr Gweithredol - Polisi Economaidd i'r cyfarfod, gan nodi bod y Cynghorydd Russell Goodway, Aelod Cabinet - Buddsoddi a Datblygu, a Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd, ill dau wedi anfon ymddiheuriadau.

Portffolio’r Arweinydd a’r Portffolio Buddsoddi a Datblygu
Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.
Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod y dangosyddion perfformiad ar gyfer y ddinas gyfan yn erbyn y dinasoedd craidd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol, yn enwedig Gwerth Ychwanegol Crynswth y pen, ac roeddent hefyd yn falch o weld Caerdydd yn gwneud yn dda ar y Graff ar Dwf Cyflogaeth – Perfformiad y Ddinas. Nododd yr Aelodau fod Manceinion wedi gwella'n fawr yn y maes hwn a gofynnwyd a ellid dysgu gwersi. Esboniodd yr Arweinydd a Ken Poole eu bod wedi ymgysylltu â Manceinion fel y ddinas fwyaf llwyddiannus i ddenu buddsoddiad yn y DU a Gorllewin Ewrop. Maent wedi sicrhau swm sylweddol o arian Bargen Ddinesig i ariannu prosiectau cynhyrchu cyflogaeth; maent hefyd wedi elwa ar ddull integredig o

farchnata'r Ddinas, gyda phob awdurdod lleol yn gweithio fel un Ddinas dros y 15 mlynedd diwethaf; mae'r proffil uchel hwn yn eu galluogi i ddatblygu eu hymdrechion gydag ymrwymiad tymor hir i greu buddsoddiad.

Roedd yr Aelodau'n siomedig nad oedd sôn am gynllun ar gyfer adeiladau Treftadaeth yn y Cynllun Corfforaethol, ac er eu bod yn deall nad yw'r Cynllun Corfforaethol yn cipio popeth, roeddent o'r farn y dylid nodi hyn yn y cynllun, fel yr oedd y llynedd.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y gyllideb ostyngol ar gyfer Digwyddiadau yn y Ddinas Gyfan a gofynnwyd sut mae hyn yn cyd-fynd â dyhead y Cabinet i gynyddu nifer y Digwyddiadau yn y Ddinas Gyfan. Esboniodd yr Arweinydd fod angen i'r traddodiad o barhau i ariannu digwyddiadau parhaus gael ei arafu, y byddai'r cyllid yn parhau ar gyfer y rhai a oedd ar gychwyn ac wrth symud ymlaen, y nod oedd cychwyn digwyddiadau newydd gyda'r bwriad iddynt ddod yn hunangynhaliol.

Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am y mesurau perfformiad allweddol ac fe'u cynghorwyd mai niferoedd y swyddi ydynt, mae'n darged blynyddol ac mae'r targed hwnnw wedi'i ddyblu.

Cyfeiriodd Aelodau at yr oedi o ran cynhyrchiant o'u cymharu â dinasoedd cystadleuol, a gofynnwyd pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Eglurodd swyddogion mai dadansoddiad oedd hwn a wnaed o ran cynhyrchiant sectoraidd o gymharu â dinasoedd craidd a bod Caerdydd wedi tanberfformio ychydig. Cyfeiriwyd at ymateb yn y Strategaeth Economaidd ddrafft; byddai ffocws ar gryfderau'r sector megis y Diwydiannau Creadigol a Gwyddorau Bywyd; roedd angen buddsoddi er mwyn cyfuno â'r ysgolion a'r prifysgolion; mae trafnidiaeth hefyd yn effeithio ar hyn a bydd y Metro'n helpu. Ychwanegodd yr Arweinydd ei bod hefyd yn bwysig edrych ar sefyllfa Cymru sefyllfa’r Ddinas; mae Caerdydd yn gwneud yn dda o gymharu â Chymru, yn llai efallai gyda rhai dinasoedd craidd; roedd yn bwysig targedu ardaloedd lle mae gan Gaerdydd gryfderau a photensial ar gyfer twf gwerth uchel.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y rôl allweddol a chwaraeir gan y tîm Digwyddiadau fel y nodwyd yn yr adroddiad presennol ymchwiliad cylch gorchwyl a gofynnwyd am effaith dileu swydd yn y tîm hwn yn y cynigion ar gyfer arbedion. Cytunodd yr Arweinydd bod y tîm Digwyddiadau yn gwneud gwaith arbennig i'r ddinas a bod Caerdydd yn cyflawni ar ei gorau yn y maes hwn. Fodd bynnag, roedd o'r farn bod yna gapasiti mewnol ac y gellid sicrhau arbedion tra'n parhau i gyflawni'r hyn yr oedd ei angen mewn strwythur mwy effeithlon.

Cyfeiriodd yr Aelodau at ddileu swydd wag yn yr adran Datblygu Economaidd, gan ofyn pa effaith y byddai hyn yn ei chael ar ddarparu gwasanaethau'n gyffredinol, ac a oedd cyfle yn cael ei golli i lenwi'r swydd hon a dod â rhywfaint o arbenigedd i mewn. Eglurodd swyddogion eu bod bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella'r gwasanaeth yn fwy effeithlon drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid; nid oeddent o'r farn y byddai dileu'r swydd hon yn effeithio ar berfformiad, byddent yn gweithio'n gallach ac mewn partneriaeth ag eraill.

Nododd yr Aelodau’r her o gysoni'r Cynllun Corfforaethol â'r gyllideb a rhoddodd enghreifftiau fel dymuno cynyddu'r economi ymwelwyr ond lleihau'r gyllideb dwristiaeth a gwella diogelwch y Ddinas ond lleihau cyllideb y tîm rheoli dinasoedd £40 mil; a gofynnodd sut y gellir cyflawni hyn ac os oedd hyder y gallai'r Cyngor barhau i gyflawni uchelgeisiau'r Cynllun Corfforaethol a chwrdd â phwysau cyllidebol. Cytunodd yr Arweinydd y byddai'n her, ond byddai gwasanaethau’n cael eu herio i weithio'n fwy effeithlon; byddai mwy o weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau fel Croeso Cymru, Cymdeithas Gwestywyr Caerdydd a phartneru gyda'r ICCW fel bod Caerdydd yn elwa; roedd yn ymwneud â gweithio'n gallach ar draws ffiniau.

Nododd yr Aelodau fod gostyngiad o £28 mil o'r gyllideb Mentrau Datblygu Economaidd a fyddai wedi cael ei ddefnyddio i ddenu busnesau, digwyddiadau ac ati newydd, a gofynnwyd sut y bydd hyn yn cael ei ystyried yn awr. Eglurodd swyddogion y byddai'r Ardal Gwella Busnes (AGB) yn y ddinas yn gweithio'n effeithiol yma er mwyn trosoli adnoddau ychwanegol o'r sector preifat ar gyfer hyn.
Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am Ardal Camlas Caerdydd, a dywedwyd wrthynt mai'r ardal hon yw'r man i'r de o Heol y Frenhines – Cilgant Guildford a Ffordd Churchill; byddai adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod craffu yn y dyfodol.

## Portffolio Diwylliant a Hamdden

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury, Aelod Cabinet – Diwylliant a Hamdden, Kathryn Richards – Pennaeth Diwylliant, Lleoliadau, Twristiaeth a Digwyddiadau, a Jon Maidment – Rheolwr Gweithredol – Parciau, Chwaraeon, Hamdden ac Awdurdod yr Harbwr i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle'r oedd yn dweud, er bod hon yn gyllideb anodd, nad oedd yn gymaint o her ag oedd blynyddoedd blaenorol wedi bod i'r Gyfarwyddiaeth hon. Eglurodd y byddai'r rhan fwyaf o'r arbedion yn deillio o resymoli staff megis diswyddiadau gwirfoddol a hefyd o leihau cymorthdaliadau i ddigwyddiadau. Roedd arbedion eraill yn cynnwys £1.8 miliwn o gytundeb partneriaeth GLL, £6 mil o gau toiledau ym Mharc Caedelyn ac o drosglwyddiad adeiladau mewn rhai parciau lle bu diddordeb ynddynt. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet y byddai rhagor o wybodaeth am y Theatr Newydd yn cael ei chyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol yn fuan.

Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Cyfeiriodd yr Aelodau at yr adolygiad o drefniadau ariannu Awdurdod Harbwr Caerdydd a gofynnwyd pwy oedd yn cynnal yr adolygiad a phryd y byddai'r canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi. Cynghorodd swyddogion fod yr arolwg yn cael ei gynnal gan ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cymru, a elwir y Bartneriaeth Leol a bydd yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2019.

Cyfeiriodd Aelodau at ohebiaeth yr oedd aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi'i chael gan Artes Mundi ac at y gostyngiad yn y grant i'r sefydliad hwnnw. Dywedodd yr Aelod Cabinet mai'r cynnig oedd y dylid cael gostyngiad o 50% yn y cyllid grant; roedd y posibilrwydd hwn wedi cael ei gyfathrebu gyda'r sefydliad dros y 3 blynedd diwethaf ac yn anffodus eleni nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i barhau i ariannu ar y lefel bresennol. Nid oedd yr Aelod Cabinet o'r farn y byddai'n effeithio ar yr ŵyl a byddai'r Cyngor yn eu helpu gyda chyfleoedd masnachol a cheisiadau am grant.

Cyfeiriodd yr Aelodau at gau'r toiledau ym Mharc Caedelyn gan feddwl tybed am amseriad hyn a'r ymgynghoriad presennol ar y Strategaeth Toiledau Cyhoeddus. Esboniodd y swyddogion fod y toiledau wedi'u cau'r llynedd oherwydd eu cyflwr, gan nad oedd unrhyw opsiwn arall ar gael.

Nododd yr Aelodau fod y cynllun corfforaethol yn cyfeirio at rôl gynyddol Grwpiau Gwirfoddolwyr a Chyfeillion mewn parciau ond nodwyd nad oedd unrhyw ystyriaeth i'r cynnydd yn nifer y Ceidwaid Parciau yn y gyllideb i gefnogi hyn. Eglurodd yr Aelod Cabinet y byddent bob amser am gael mwy o Geidwaid y Parc ond ar hyn o bryd nid oedd y Cyngor mewn sefyllfa i gefnogi hynny; roedd swyddogion yn hyderus y gellid bodloni'r targed o 18,000 awr gan nad oedd gostyngiad yn y gyllideb 2019/20 er mwyn gallu cyflawni'r ffigwr hwnnw. Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet hefyd na fu unrhyw gynnydd yn ffioedd y parciau ar gyfer clybiau chwaraeon lleol ac ati.

Nododd yr Aelodau, gan gyfeirio at y Theatr Newydd, fod yr arbedion yn y camau cynllunio cyffredinol a gofynnwyd a oedd swyddogion yn hyderus y gellid eu gwneud. Eglurodd swyddogion eu bod yn weddol hyderus, eu bod yn symud yn gyflym gyda phethau, bod yr hysbyseb wedi mynd allan a bod llawer o ddiddordeb wedi bod; roedd rheolwr newydd yn y Theatr gyda chefndir a phrofiad masnachol; roeddent yn ceisio symud y brydles ymlaen yn gyflym ond hefyd yn cynyddu refeniw ar hyn o bryd. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod cyfarwyddeb wedi bod i symud yn gyflym ar hyn ond y dylid cael goruchwyliaeth; byddai angen i'r Pwyllgor Craffu a’r Cabinet oruchwylio hefyd ac roedd paramedrau cyfreithiol i weithio iddynt, dyna pam y mae wedi'i restru fel ar y camau cynllunio cyffredinol ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y £54 mil yn y gyllideb Mecanwaith Gwydnwch Ariannol ar gyfer 'arall' ac roeddent yn falch o weld bod hwn yn cael ei glustnodi ar gyfer cynnal a chadw'r meysydd chwarae a choed. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai hyn ar gyfer plannu neu gynnal a chadw coed; dywedodd swyddogion nad oedd y manylion wedi'u trafod gyda'r Aelod Cabinet eto; byddai angen rhannu'r swm rhwng y meysydd chwarae a choed ond y byddai'r arian yn cael ei wario; roedd rhaglen dreigl o waith cynnal a chadw'r meysydd chwarae ac roeddent yn ymwybodol bod angen gwella ar draws y ddinas.

Nododd yr Aelodau, o ran digwyddiadau, fod y Triathlon yn ystyried bod Caerdydd yn wych a bod ansawdd y dŵr ym Mae Caerdydd yn cael ei ystyried yn wych. Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw drafodaeth wedi bod gydag Awdurdod yr Harbwr ynghylch nofio agored a thraeth artiffisial ar gyrion y Bae. Eglurodd yr Aelod Cabinet fod trafodaethau wedi bod ar lefel leol, ond y byddai angen rhagor o waith ar hyn a'i brofi'n drylwyr; eglurodd swyddogion fod rhai anawsterau technegol gan nad yw ansawdd y dŵr yn gyson dda felly ni ellir eu gwarantu ar gyfer digwyddiadau ond mae cyfleoedd i'w harchwilio. Ychwanegodd bod ardal wedi ffinio gan raffau ar gyfer nofio dŵr agored yn y Ganolfan Dŵr Gwyn yn y Bae. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei fod wedi cwrdd â'r Triathlon yn ddiweddar ac maent yn awyddus i gynnal digwyddiad Cyfres y Byd yng Nghaerdydd, y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi hyn i’w wireddu.

## Cyfarwyddiaeth Cymunedau a Thai

Y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Sarah Merry, y Cynghorydd Lynda Thorne, Aelod Cabinet – Tai a Chymunedau a Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cymunedau a Thai)

## Portffolio Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle eglurodd bod Dysgu i Weithio yn cael ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru - rhagwelwyd y byddai'r cyllid hwn yn gostwng 50% o fis Medi 2020, byddai adolygiad llawn o'r gwasanaeth yn cael ei yn destun adroddiad yn y dyfodol i'r pwyllgor craffu; roedd Dysgu i Fyw yn seiliedig ar fodel adennill costau a oedd yn gwneud cynnydd da; byddai Neuadd Llanofer yn ariannu ei hun erbyn diwedd y flwyddyn a byddai hefyd yn dathlu ei hanner ganrif fel canolfan gelfyddydau gymunedol yn fuan.

Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Nododd yr Aelodau eu bod wedi gofyn i'r gwasanaeth yn y gorffennol i archwilio'r opsiynau o ran gwirfoddolwyr a chyrsiau â chymhorthdal a gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf am hyn. Eglurodd swyddogion fod gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio ar gyrsiau ac mewn Hybiau ar gyfer pethau fel Cynhwysiant Digidol a bod hyn yn cael ei ariannu drwy Addysg Oedolion Cymunedol; gobeithiwyd y byddai rhai cyrsiau â chymhorthdal yn cael eu cynnig yn Neuadd Llanofer cyn bo hir, drwy groesgymorthdalu o gyrsiau eraill.

Gofynnodd Aelodau a oedd prosiect 'Grassroots' yn dod o dan y Gwasanaethau Ieuenctid neu Addysg Oedolion Gydol Oes. Cynghorodd swyddogion ei fod yn dod o dan y prosiect Hybiau ond bod Gwasanaeth Ieuenctid wedi'i leoli yno; dywedodd swyddogion ymhellach fod cynlluniau i wneud hon yn siop un stop ar gyfer pobl ifanc sy'n darparu amrywiaeth enfawr o wasanaethau; roedd cynlluniau yn y broses gynllunio ar gyfer estyniad yng nghefn yr adeilad ac roedd cais wedi'i wneud am gyllid i gefnogi cyllid gan y Cyngor ar hyn o bryd.

## Portffolio Tai a Chymunedau

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle dywedodd fod y gyfarwyddiaeth eisoes wedi cyflawni'r arbedion o £250,000 drwy ailstrwythuro ac roedd yn newyddion da. Byddai'r gwasanaeth yn parhau i gael ei wella drwy gyflwyno'r Hybiau Lles Cymunedol.

Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Roedd yr Aelodau'n awyddus i ddysgu mwy am fanylion y newidiadau o ran strategaeth r Hybiau, pa ganlyniadau terfynol yr oedd eu hangen a pha wasanaethau a fyddai'n cael eu cynnig ym mhob Hyb. Dywedodd swyddogion fod adolygiad wedi'i gynnal o lefelau staff ar draws y llyfrgelloedd a bod hyfforddiant megis hyfforddiant digidol, hyfforddiant hyb cyffredinol a sut i gyfeirio at wasanaethau fel Gwasanaethau Byw'n Annibynnol, pryd ar glud a gwasanaethau cymorth wedi cael eu darparu. Byddai pob llyfrgell yn cynnig gwasanaethau y mae ar y gymuned eu hangen, a byddai'r rhain yn cael eu nodi drwy ymgynghoriad; pe byddai angen addasu unrhyw adeilad i ddiwallu'r anghenion dynodedig hyn, yna byddai ceisiadau am gyllid yn cael

eu cyflwyno ar gyfer y rhain. Mae hyn wedi digwydd yn yr Eglwys Newydd a Rhydypennau ac mae'r ymgynghoriadau hyn wedi arwain at newidiadau mewn cynlluniau arfaethedig; mae ymgynghoriadau eraill i fod i ddigwydd mewn rhannau eraill o Ogledd Caerdydd dros y misoedd nesaf.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth ar linell 33 gan gyfeirio at wasanaethau Cyngor i Mewn i Waith a chostau rheoli. Dywedodd swyddogion eu bod wedi dod â'r holl wasanaethau a ariennir drwy grant yn fewnol, felly pan fyddant yn cael grantiau a'r costau rheoli cysylltiedig, gellir gwrthbwyso'r rhain.

PENDERFYNWYD: y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle byddai'r ffordd ymlaen yn cael ei thrafod ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

62 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

63 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd a nodi nifer o broblemau y cytunai'r Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, at yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

64 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

14eg Mawrth 2019, 4.30pm, Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.35 pm